**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd nos Fawrth 17 o Hydref 2023 am 19:00 drwy Zoom.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Philip Roberts, Gwynedd Williams, Hefin Jones, Berwyn Parry Jones, Ann Lawton, Beca Brown, Rhys Parry

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Avril Jones, Alan Pritchard, Richard Robinson

**CLERC:** Meirion Jones

**Cyfieithydd:** Lowri Gwyn o gwmni Lingo (cyfieithydd)

**Aelodau o'r Cyhoedd**: Ms Gemma Jones (trefnydd deiseb ar ran Ysgol Gynradd Llanrug a Mrs Mared Roberts (ar ran Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug). Yn ogystal roedd llawer ac aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

**1207. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan i Gadeirydd ac eglurodd y trefniadau ar gyfer aelodau o'r cyhoedd roedd angen siarad yn ystod y cyfarfod.

**1208 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod

**1209. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**1210. I gadarnhau cofnodion cyfarfod 19 Medi 2023**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

**1211. Unrhyw fater yn codi o gofnodion cyfarfod 19 Medi 2023**

Adroddwyd am gyflwr y wal gyferbyn ac Ysgol Brynrefail ac fe adroddwyd gan y Cynghorydd Beca Brown, ei bod wedi adrodd ar hyn sawl gwaith at Gyngor Gwynedd ac wedi anfon lluniau ond ddim wedi derbyn ymateb.

**1212. Fod Cyngor Cymuned Llanrug yn gwrthwynebu unrhyw fwriad honedig gan Gyngor Gwynedd i werthu tri chwarter y tir sydd wedi lleoli nesaf i Ysgol Gynradd Llanrug ar gyfer adeiladu dau dŷ.(Cyng. Rhys Parry)**

**Penderfynwyd:** Fod Cyngor Cymuned Llanrug yn cefnogi'r uchod a'i fod yn gwrthwynebu unrhyw fwriad gan Gyngor Gwynedd i adeiladu tai ar y safle. Mae hefyd yn gofyn i'r tir ei ddychwelyd i'r Adran Addysg i bwrpas defnydd yr ysgol.

**Cyn dod i'r penderfyniad yma, cafwyd pleidlais a'r canlyniad oedd**

Cefnogi'r cynnig 6
Ymatal pleidlais 2

**1213. Fod Cyngor Cymuned Llanrug yn gefnogol i unrhyw ddeiseb sydd yn cylchredeg i wrthwynebu gwerthu unrhyw lain o dir sydd wedi lleoli nesaf i Ysgol Gynradd Llanrug. (Cyng. Rhys Parry)**

**Penderfynwyd:** Fod Cyngor Cymuned Llanrug yn cefnogi unrhyw ddeiseb sydd yn cylchredeg ar sail i wrthwynebu unrhyw fwriad gan Gyngor Gwynedd i adeiladu tai ar y safle ac i ddychwelyd y tir i'r Adran Addysg at ddefnydd yr ysgol.

**1214. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent.**

Adroddodd y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent

Cais Mynwent y Flwyddyn -llwyddiannus ,gwobr arian. Angen trefnu sesiwn tynnu lluniau.

Arwyddion i'r giatiau yn y fynwent (wedi archebu)

Polisi cofebion wedi'i mabwysiadu; copi ar gael.

Cadarnhad nad yw'r cwt yn y fynwent yn cynnwys RAAC : diolch i Berwyn P Jones am ei help.

**Cyfarfod nesaf yr is-bwyllgor : 14.11.23 (5.30 p.m. ar lein)**
Eitemau ar yr agenda :

Cyfarfod cyswllt gyda'r contractwr torri gwair i drafod cwyn am y toriadau gwair yn y fynwent a chymerodd lle ar 11.9.23.
Ysgrifennu a chyhoeddi FAQs ynglŷn â thorri gwair - i'w roi ar safle we'r cyngor.
Gweithredoedd gwyrdd : ymchwilio i mewn i bwrcasu bin brown i'r fynwent a chamau i hyrwyddo defnydd o flodau di-blastig, cynaliadwy.
Cynllunio tymor hir : angen amcangyfrif o gostau gwaith ar y waliau a'r ffensys yn y fynwent.
Asesiadau risg

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1215. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Yn absenoldeb cadeirydd y pwyllgor, cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Gwynedd Williams, (Is gadeirydd y pwyllgor).

Nodwyd fod dyddiadau casglu sbwriel wedi eu rhoi ar dudalen Facebook y cyngor

Cyfarfod o'r pwyllgor wedi trefnu ar gyfer 24ain o Hydref 2023 am 6:00 yn

Fod Menter Fachwen wedi bod yn plannu Cennin Pedr ar hyd y fro

Fod aelod o staff Menter Fachwen wedi bod yn gweld y goeden yng Nghwm y Glo er cof am y diweddar Gynghorydd Brian Jones ac wedi gallu cadarnhau fod y goeden yn iawn.

Adroddwyd fod angen gwaith ar ffens cae chwarae nant y Glyn ar frys

Angen adnewyddu darn o ffens newydd ar gyfer Pwll Moelyn

Ar gyfer torch ar gyfer Sul y Cofio, ac er cydymffurfio a pholisi'r cyngor o leihau ar ddefnydd o blastig, cytunwyd i brynu torch am y flwyddyn yma. Ar ôl ei ddefnyddio, ei gadw'n saff ar gyfer flwyddyn nesaf ac yna talu'r ffi am y dorch fel cyfraniad.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1216. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Bwyd a Llesiant**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, Cadeirydd y Pwyllgor

Fod ein cais am grant oddi wrth Cist Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus am yr uchafswm sef £3,000

Bydd yn bosib i ni ddarparu bara ac wyau hyd at ddiwedd mis Ionawr 2024

Bod elw o gyngerdd nos Sadwrn yn cael ei roi i'r cynllun bwyd

Adroddwyd fod i'r nifer sydd yn derbyn y pecynnau bwyd yn sefydlog gyda dim llawer o newid yn y rhai sydd yn ei derbyn yn wythnosol.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1217. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, cynrychiolydd y cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr yr ysgol

Wedi mynychu ¾ cyfarfod 22-23 a mynychu dwy sesiwn hyfforddiant ar lein (Anwytho, Cwricwlwm Cymru).

Wedi mynychu cyfarfod cyntaf y flwyddyn Ysgol newydd mis Medi -cyfarfod sydd yn cyhoeddi blaenoriaethau, cynlluniau, ethol aelodau i'r Corff i bwyllgorau arbennig, mabwysiadu polisïau ag yn y blaen.

Yr wyf am fynychu tri sesiwn hyfforddi yn 23/4 : hunan arfarnu effeithiol, corff llywodraethol fel Cyfeillion Beirniadol, diweddariad ar Gwricwlwm i Gymru. Materion sydd wedi ei drafod : capasiti yr Ysgol ; hyfforddiant i staff ( enwedig lles, diogelwch plant); paratoi am Estyn; amgylchedd yr Ysgol sef

parcio, palmentydd, Tŷ’r Ysgol; agweddau o’r cwricwlwm newydd.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1218. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddiwrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Cwm y Glo a Llanrug ar Gyngor Gwynedd.**

**Cyfarfod y Cabinet**

Trafod ymateb Cyngor Gwynedd i’r Ymgynghoriad gan y Gwasanaeth Tân. Ateb cynhwysfawr ond yn pwysleisio nad oedd Opsiwn 3 yn cael ei ffafrio.
Cynllun Gweithio yn hyblyg y Cyngor wedi ei gytuno. O hyn ymlaen bydd disgwyl i bawb sydd yn gweithio yn hyblyg fynychu'r swyddfa o leiaf dau ddiwrnod yr wythnos

**Cyffredinol**

Bu'r ddau ohonom ar hyfforddiant:-

1. Diwrnod datblygu'r Cabinet - gweithio fel tîm.

Yr adran Addysg wedi cael arolygiad Estyn. Canlyniad ardderchog. Roeddent yn cydnabod ymrwymiad yr Adran Addysg a’r Cyngor i’r iaith Cymraeg. Rhai argymhellion wedi eu cynnig hefyd.

Strategaeth Iaith Gwynedd wedi bod allan i ymgynghoriad. Tipyn o sylwadau - cadarnhaol ar y cyfan. Dim sylw wedi dod byddai yn golygu unrhyw newid i’r Strategaeth. Bydd adroddiad i fabwysiadu'r strategaeth yn dod i’r Cabinet yn fuan.

Adroddiad ar Doiledau cyhoeddus wedi mynd i’r Pwyllgor Craffu am sylwadau. Llawer o sylwadau ynglŷn â chodi tâl am ddefnydd o’r toiledau, ac os yn codi tâl faint ddylai fod. Hefyd trafodaeth ynglŷn â defnyddio cerdyn credid yn ychwanegol i arian parod. Posibilrwydd o dreialu hyn ar nifer cyfyngedig o doiledau. Fe ddaeth yn amlwg fod angen mwy o gyhoeddusrwydd i’r ffaith fod rhai toiledau cymunedol ar gael yng Ngwynedd hefyd. Golygai hyn fod busnesau yn cael eu talu i ganiatáu i’r cyhoedd cael defnyddio eu toiledau. Bydd y sylwadau yn cael ei adrodd yn ôl a’i gynnwys yn yr Adroddiad terfynol i’r Cabinet, tua diwedd y flwyddyn.

Mae’r broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol wedi dechrau. Bydd yn cymryd oddeutu tair blynedd a hanner i’w cwblhau. Fel rhan o hyn mae’r Adroddiad Monitro Blynyddol, wedi ei barhau a’i gymeradwyo gan y Cabinet. Mae hwn nawr allan i ymgynghoriad cyn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae cyfle i’r Cyngor Cymuned ymateb i’r ymgynghoriad hefyd. Mae’n wir i ddweud bydd angen mewnbwn gan y Cynghorau Cymuned ar hyd y daith.

Mae’r broses o ddarganfod arbedion wedi dechrau. Cynghorwyr i gyd yn cael dewis beth fydda nhw yn ei dorri neu arbed. Ni fydd y Cyngor yn cael gwybod faint o arian fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi i’r cynghorau tan y diwrnod olaf o waith cyn y Nadolig. Felly fydd llawer o waith i wneud yn Ionawr a Chwefror

i gwblhau'r gyllideb er mwyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth. Bydd adroddiad yn cael ei baratoi i'r Cabinet, y Cabinet yn argymell y gyllideb i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth.

Wedi mynychu Bwrdd Prosiect Fairbourne. Llawer o drafodaeth ar sut i symud y prosiect yn ei flaen. Gweithdai yn cael eu trefnu i gasglu syniadau ar y ffordd ymlaen.

Beca a finnau wedi bod mewn llawer o drafodaethau ynglŷn â dyfodol tir Tŷ'r Ysgol. Ac wrth gwrs hwn wedi cael ei drafod gan y Cyngor ynghynt heno.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1219. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

**Dim**

Daeth y cyfarfod i ben am 20:45

**Arwyddwyd:**

**Cadeirydd:** **Dyddiad: 20 Tachwedd 2023**